Y Pwyllgor Cyllid

FIN(3) 05-09 (p1) Cynnig cyllideb atodol Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008-09

Dyddiad: Dydd Mercher 11 Mawrth 2009
Amser: 8.15 - 9.00am
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3

# Y Cynnig ynghylch y Gyllideb Atodol 2008-09

***Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus***

***Mawrth 2009***

**Cynnig Cyllidebol Atodol**

Gofynnir i'r Cynulliad gytuno ar y canlynol:

“1. Gwneir y penderfyniad hwn ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2009 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") yn unol ag Adran 126 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Llywodraeth Cynulliad Cymru

2. Awdurdodir Llywodraeth Cynulliad Cymru-

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau sy'n cronni) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2009 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 Atodlen 1, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 yr Atodlen honno;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronnus a nodir yng Ngholofn 1 o bob Rhan o Atodlen 2, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2009, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y mannau cyfatebol yng Ngholofn 2 o bob Rhan o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer pob Rhan o'r Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn Atodlen 1, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

Comisiwn y Cynulliad

3. Awdurdodir Comisiwn y Cynulliad -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2009 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 1 Atodlen 3, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Ran 1 Atodlen 3;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, o fewn y categorïau adnoddau cronnus a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 1 Atodlen 4, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2009, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y mannau cyfatebol yng Ngholofn 2 o Ran 1 yr Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir yn Rhan 1 yr Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 1 Atodlen 3, hyd at derfyn y gofyn net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

4. Awdurdodir Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2009 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 2 Atodlen 3, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Ran 2 Atodlen 3;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, o fewn y categorïau adnoddau cronnus a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 2 Atodlen 4, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2009, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y mannau cyfatebol yng Ngholofn 2 o Ran 2 yr Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir yn Rhan 2 yr Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 2 Atodlen 3, hyd at derfyn y gofyn net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

Archwilydd Cyffredinol Cymru

5. Awdurdodir Archwilydd Cyffredinol Cymru -

(a) i ddefnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2009 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 Atodlen 3, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o Ran 3 Atodlen 3;

(b) yn ogystal, i gadw incwm, o fewn y categorïau adnoddau cronnus a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 Atodlen 4, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2009, ar gyfer ei ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y mannau cyfatebol yng Ngholofn 2 o Ran 3 yr Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir yn Rhan 3 yr Atodlen honno; ac

(c) i gymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Ran 3 Atodlen 3, hyd at derfyn y gofyn net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

Nodi'r Categorïau Adnoddau Cronnus

6. Mae'r categorïau adnoddau cronnus a restrir yng Ngholofn 1 o bob Rhan o Atodlen 2, ac yng Ngholofn 2 o bob Rhan o Atodlen 4, yn gategorïau sydd wedi'u nodi at bwrpas adran 120(2)(a) y Ddeddf."

## Crynodeb o'r Gofynion Adnoddau a Chyfalaf

***Gweinidogion Cymru***

| **Cwmpas** | **Adnoddau (£000)** | **Adnoddau Cronnus (£000)** |
|---|---|---|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 4,797,428 | 1,189,622 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol | 3,378,039 | 10 |
| Yr Economi a Thrafnidiaeth | 1,626,034 | 315,278 |
| Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau | 1,938,322 | 46,682 |
| Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai | 736,072 | 111,948 |
| Materion Gwledig | 138,920 | 293,534 |
| Treftadaeth | 143,445 | 4,777 |
| Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad | 57,831 | 442 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 376,497 | 8,500 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau y Gofynnwyd Amdanynt a'r Incwm Cronnus mewn perthynas â Gweinidogion Cymru** | **13,192,588** | **1,970,793** |

***Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol*** o Gronfa Gyfunol Cymru

| **Cwmpas** | **Adnoddau (£000)** | **Adnoddau Cronnus (£000)** |
|---|---|---|
| Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 46,181 | 160 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | 3,142 | 8 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | 4,900 | 9,300 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau a'r Incwm Cronnus ar gyfer Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol** | **54,223** | **9,468** |

## Atodlen 1 – Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru

| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gan gynnwys hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol; gwariant gan Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG; Cyfalaf Difidend Cyhoeddus i Ymddiriedolaethau'r GIG; benthyciadau i Ymddiriedolaethau'r GIG a Byrddau Iechyd Lleol; taliadau am wasanaethau o dan gontract gan gynnwys gwasanaethau deintyddol ac offthalmig; cymorth ar gyfer addysg a hyfforddiant; ymchwil a datblygu; gwasanaethau gofal sylfaenol; gwasanaethau iechyd meddwl; triniaeth ar gyfer clefydau cronig; y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol - Gwasanaethau Microbioleg ICDS; Iechyd y Cyhoedd; Canolfan Iechyd Cymru; Anghydraddoldebau Iechyd; Gwella Gwariant ar Iechyd gan Gomisiwn Iechyd Cymru; gwasanaethau a ddarperir ar gyfer neu ar ran Llywodraeth yr Alban, Gogledd Iwerddon a'r Adran Iechyd; cyllid i Ymddiriedolaethau'r GIG a Byrddau Iechyd Lleol a darparwyr Gofal Iechyd cysylltiedig i brynu tir, adeiladau, gosodiadau a ffitiadau; prynu cerbydau er mwyn helpu i ddarparu gofal iechyd; prynu cyfarpar technoleg gwybodaeth a thelathrebu; grantiau i fudiadau gwirfoddol; cymorth i'r Asiantaeth Safonau Bwyd; Bwyd Lles; grantiau i gefnogi gwasanaethau plant a theuluoedd; cefnogaeth i wasanaethau ar gyfer pobl hŷn; cefnogaeth i Wasanaethau Cymdeithasol ac i Ofalwyr; cyllid ar gyfer Cyngor Gofal Cymru; ariannu gwaith y Gwasanaeth Cynghori Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS Cymru); cyfraniadau i'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol; cyfraniadau i gyrff iechyd a gofal cymdeithasol y DU; y Comisiynydd Pobl Hŷn; buddsoddiad cyfalaf ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau a darparwyr gofal sylfaenol; gwasanaethau gwella iechyd ac ar gyfer atal, diagnosio a thrin salwch ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod. | 4,797,428 |

| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol gan gynnwys hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol; arian ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub a buddsoddi mewn diogelwch tân cymunedol; caffael Firelink a New Dimension; cymorth i adfywio cymunedau gan gynnwys Groundwork, adfywio'r meysydd glo a chyfleusterau cymunedol; cymorth i feithrin gallu cymunedau; taliadau i fudiadau gwirfoddol a chyrff cyhoeddus i gefnogi'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf; cymorth ar gyfer Swyddfeydd Post; cymorth i'r sector gwirfoddol ac ar gyfer gwirfoddoli; ariannu'r Swyddfa Cofnodion Troseddol; ariannu prosiectau gyda ffoaduriaid, ceiswyr lloches a gweithwyr mudol a gwaith ar gydlyniant cymunedol; cymorth i Sipsiwn-Teithwyr; cymorth ar gyfer gwaith i fynd i'r afael â cham-drin domestig a materion cysylltiedig, cymorth ar gyfer mentrau yn ymwneud â diogelwch cymunedol, gan gynnwys ariannu Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, gwariant i gyflawni'r strategaeth camddefnyddio sylweddau a mentrau cysylltiedig, cymorth i blant a mentrau tlodi plant; cymorth i Awdurdodau'r Heddlu mewn perthynas â chamddefnyddio cyffuriau, ac addysgu a gwaith atal yn y maes hwnnw; datblygu mentrau cymdeithasol a chymunedol a chefnogi undebau credyd; arian i fynd i'r afael â throseddu gan bobl ifanc ac i'w atal; taliadau'r Grant Cynnal Refeniw a'r Ardreth Annomestig Genedlaethol (NNDR) i awdurdodau unedol ac awdurdodau'r heddlu; Grant Cytundeb Gwella ar gyfer awdurdodau unedol; cymorth y Fenter Cyllid Preifat; cyllid grantiau amddifadedd i awdurdodau unedol; costau casglu'r NNDR; noddi Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru, Panel Dyfarnu Cymru a Gwasanaeth Tribiwnlys Prisio Cymru; cymorth i Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â gwaith arolygu; cymorth i Asiantaeth y Swyddfa Brisio; Gwasanaethau Cyfreithwyr y Trysorlys; grantiau amrywiol i lywodraeth leol ac ar gyfer gwella llywodraeth leol, gan gynnwys rhaglen Ffynnon; cymorth gyda'r cynllun defnyddio Budd-dal y Dreth Gyngor a chynllun gostyngiadau'r Dreth Gyngor i bensiynwyr; Bellwin; grantiau cyfalaf tywydd garw; arian cyfalaf cyffredinol; rhyddhad ardrethi busnes; ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod. | 3,378,039 |

| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Yr Economi a Thrafnidiaeth**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar yr Economi a Thrafnidiaeth gan gynnwys hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol; darparu cymorth a chyngor i helpu busnesau yng Nghymru i sefydlu, tyfu a datblygu, gan gynnwys gweithgareddau Llygad Busnes; polisi, ymchwil a gwerthuso economaidd; hyrwyddo Cymru fel lleoliad i wneud busnes ac i fuddsoddi ynddo, yn rhyngwladol ac yn ddomestig; hyrwyddo allforion o Gymru; darparu safleoedd, adeiladau, gwasanaethau a chyfleusterau ar gyfer busnesau, gan gynnwys gwelliannau amgylcheddol; adfywio; polisi ar brosiectau cronfeydd strwythurol y CE, eu gweinyddu a'u gweithredu; digwyddiadau chwaraeon o bwys; cymorth ar gyfer Cyllid Cymru; trafnidiaeth ffyrdd, gan gynnwys adeiladu, rhedeg, cynnal a chadw a gwella cefnffyrdd yng Nghymru; darparu gwasanaethau rheilffordd ac awyr i deithwyr; diogelwch ar y ffyrdd, rheoleiddio croesfannau i gerddwyr a pharcio ar y stryd; cyllido a gweinyddu rhaglenni i awdurdodau lleol a chyrff eraill ar gyfer darparu ystod o gynlluniau a gwasanaethau trafnidiaeth ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod. | 1,626,034 |

| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau er mwyn ariannu: y Cyfnod Sylfaen, Dechrau'n Deg a chymorth i blant, gan gynnwys ariannu'r Comisiynydd Plant; cymorth i awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol ar gyfer mesurau gofal plant; safonau maeth mewn ysgolion; datblygu a rheoleiddio'r cwricwlwm a chymwysterau; gwella perfformiad ac ariannu arolygiadau; cymorth ar gyfer ysgolion bro, bach a gwledig; Cynghori ac Eiriolaeth; Effeithiolrwydd Ysgolion; arian cyfalaf a refeniw ar gyfer datblygu TG at ddibenion dysgu; cymorth i Techniquest; y grant gwisg ysgol; gweithgareddau llywodraethwyr ysgolion; cyfalaf i gefnogi seilwaith ysgolion a'r seilwaith ôl-16; cynhwysiant ac anghenion dysgu ychwanegol; datblygu ymarferwyr; dysgu dwyieithog; arian cyfalaf a refeniw ar gyfer Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru; darpariaeth gyfalaf a refeniw ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16 gan gynnwys Addysg Bellach a dysgu seiliedig ar waith; ymestyn hawliau a llwybrau dysgu 14-19; cyllid i fyfyrwyr a dysgwyr gan gynnwys costau'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr a'r Lwfansau Cynhaliaeth Addysg; gwasanaethau cyngor ar yrfaoedd; gwella Sgiliau Sylfaenol; mentrau addysg rhyngwladol; ymchwil a gwerthuso; ac arloesi ym maes addysg, dysgu gydol oes a sgiliau er mwyn gwella perfformiad; eitemau cysylltiedig heb fod yn arian parod ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod . | 1,938,322 |

| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai gan gynnwys hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol; rhoi cyllid, cyngor a chymorth gweinyddol i awdurdodau lleol, asiantaethau a chyrff eraill er mwyn hyrwyddo, hwyluso a darparu ystod o gynlluniau a gwasanaethau mewn perthynas â'r Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai; hwyluso, hyrwyddo a chyflawni ym maes datblygu cynaliadwy, mesur ôl-troed ecolegol, y newid yn yr hinsawdd ac ansawdd yr amgylchedd; effeithlonrwydd ynni a rheoli adnoddau dŵr mewn modd cynaliadwy; darparu ac ariannu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth, mesurau i atal llifogydd ac amddiffyn yr arfordir; darparu cyllid, cymorth a chyngor sy'n ymwneud â thlodi tanwydd, gwastraff a chynaliadwyedd gan gynnwys yr Ardoll Agregau; gwaredu, casglu, rheoli a thrin gwastraff, cynlluniau ailgylchu, glanhau strydoedd a chredydau treth tirlenwi; rheoli ymbelydredd, cemegolion a sylweddau cysylltiedig, llygredd amgylcheddol, ansawdd yr amgylchedd, ansawdd aer a llygredd sŵn, rheoleiddio amgylcheddol ac ynni cynaliadwy; gwella'r cyflenwad o dai sydd ar gael a gwella safon tai yr awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ledled Cymru; caffael, lesio, datblygu a chynnal a chadw tir ac adeiladau; trosglwyddo stoc tai; cymorth ar gyfer modelau cymunedol cydfuddiannol ac er mwyn meithrin gallu; tai cymdeithasol; cymorth ar gyfer gwaith adfywio ffisegol gan gynnwys ardaloedd adnewyddu tai a thrwyddedu tai amlfeddiannaeth; cefnogi pobl; gwaith addasu er mwyn i bobl fedru aros yn eu cartrefi eu hunain; rheoleiddio ac arolygu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig; cynllunio, gan gynnwys gwaith achos ar apelau, cyhoeddi dogfennau cynllunio, a chyllid ar gyfer ymchwil; trosi a gweithredu deddfwriaeth a rhwymedigaethau'r DU, deddfwriaeth a rhwymedigaethau Ewropeaidd a rhyngwladol; gweinyddu a chyflawni prosiectau a ariennir o dan gronfeydd strwythurol y CE; darparu cymorth grant, cynnal ymchwiliadau, ymchwil a gwerthuso; gwaith hyrwyddo a chyhoeddusrwydd a gwasanaethau mewn cysylltiad â'r Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod. | 736,072 |

| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Materion Gwledig**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Faterion Gwledig gan gynnwys hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol; cadwraeth; iechyd anifeiliaid a phlanhigion; hadau, plaladdwyr a chnydau GM; iechyd y cyhoedd; iawndal ar gyfer da byw; gweithgareddau lles anifeiliaid; arian Ewropeaidd i gefnogi ffermwyr yng Nghymru, gan gynnwys Cynllun y Taliad Sengl; gwybodaeth, cyngor a gwasanaethau arbenigol; cadw golwg ar glefydau; cymorth i sector pysgodfeydd Cymru a'i ddatblygu; arian Ewropeaidd i gefnogi pysgodfeydd yng Nghymru; rheoli a gorfodi pysgodfeydd a’r amgylchedd morol; helpu, datblygu ac adfywio cymunedau gwledig; datblygu technoleg gwybodaeth; arian cyfatebol ar gyfer rhaglenni Ewropeaidd; ariannu pwyllgorau ac ymchwiliadau i faterion gwledig ac amgylcheddol; cyhoeddusrwydd; cymorth ar gyfer datblygu, cynhyrchu, hyrwyddo a marchnata bwyd; cymorth ar gyfer datblygu cadwyni cyflenwi gwerth ychwanegol ar gyfer holl gynnyrch sector diwydiannau’r tir; cymorth ar gyfer rheoli tir gan gynnwys mesurau amaeth-amgylcheddol a choetir; grantiau coetir a ariennir gan yr UE; gwariant cyfalaf a refeniw gan y Comisiwn Coedwigaeth; Rheoli a Chyflwyno'r Cynllun Datblygu Gwledig; cymorth ar gyfer mesurau o dan y Cynllun Datblygu Gwledig; ymchwilio i bolisïau Materion Gwledig a’u gwerthuso a datblygu’r sylfaen dystiolaeth sy’n sail iddynt; mesurau i liniaru ar allyriadau nwyon tŷ gwydr o sector diwydiannau’r tir; ac unrhyw wariant cysylltiedig neu a allai godi gan gynnwys unrhyw wariant cyfreithiol a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod. | 138,920 |

| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Treftadaeth**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar dreftadaeth gan gynnwys hyrwyddo neu wella diwylliant a lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol a chymorth ariannol i gefnogi diwylliant, chwaraeon a gweithgareddau hamdden, yr iaith Gymraeg, yr amgylchedd hanesyddol a thwristiaeth gan gynnwys cyllid i Amgueddfa Cymru – National Museum Wales; cyllid i Lyfrgell Genedlaethol Cymru; cyllid i Gyngor Celfyddydau Cymru; cyllid i Ganolfan Mileniwm Cymru; cyllid i Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru; cyllid i Gyngor Llyfrau Cymru; cyllid i Gyngor Chwaraeon Cymru a sefydliadau sy'n hyrwyddo chwaraeon a gweithgareddau hamdden a ffyrdd egnïol o fyw ledled Cymru; cymorth ar gyfer gwaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg a phrosiectau sy'n hyrwyddo'r Iaith Gymraeg; cyllid i helpu i roi cyfarwyddyd polisi i ddosbarthwyr arian y Loteri; cyllid i gefnogi amgueddfeydd ac orielau, archifau a llyfrgelloedd nad ydynt yn rhai cenedlaethol a phrosiectau lleol a chenedlaethol sy'n ceisio hyrwyddo ac ehangu mynediad i drysorau diwylliannol; gwarchod, diogelu, cynnal a chyflwyno amgylchedd hanesyddol Cymru er mwyn sicrhau ei fod ar gael i bawb a'i fod yn cael ei ddiogelu'n dda (drwy CADW) gan gynnwys costau rhedeg cysylltiedig CADW; ariannu Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru; unrhyw wariant sy'n ymwneud â chadwraeth, gwarchod, cynnal a chyflwyno gweddillion archaeolegol yng Nghymru, henebion yng Nghymru, adeiladau a llefydd o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol yng Nghymru, a llongddrylliadau hanesyddol yng Nghymru; unrhyw wariant ar gelf a chrefft sy'n ymwneud â Chymru, ac ar weithgareddau a phrosiectau diwylliannol sy'n ymwneud â Chymru; hyrwyddo twristiaeth yng Nghymru a chymorth ar ei gyfer a chymorth i frand Cymru; ac unrhyw wariant cysylltiedig neu a allai godi a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod. | 143,445 |

| **Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus)** | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru i hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol; materion sy'n ymwneud â gwella gwasanaethau cyhoeddus a'u perfformiad, rheoleiddio ac arolygu ar draws sector cyhoeddus Cymru, gan gynnwys rhoi ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad Beecham ar waith, gan gynnwys grantiau i gyrff cyhoeddus, cyrff y trydydd sector a chyrff eraill yng Nghymru er mwyn gwella gwasanaethau cyhoeddus; arian datblygu*;* ymchwil; gwasanaethau ymgynghori; gwariant i helpu'r sector cyhoeddus yng Nghymru i wneud y defnydd mwyaf effeithlon o'i adnoddau ac i gefnogi rhaglenni sbarduno a phrosiectau eraill cysylltiedig; cyllid ar gyfer ymchwil cydweithredol ac ymchwil wedi'i dargedu i dueddiadau daearyddol hirdymor sy'n dylanwadu ar ddatblygu; gwariant ar faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu ac i helpu'r sector cyhoeddus yng Nghymru i ddatblygu ymhellach sgiliau a medrau arwain, rheoli, cynllunio ac eraill; hwyluso datblygiad gwaith trawsbynciol a chefnogi rhaglenni sbarduno a phrosiectau cysylltiedig eraill; gwariant i hwyluso datblygu a darparu gwasanaethau effeithiol, cydgysylltiedig a lleol sy'n canolbwyntio ar y dinesydd ac i gefnogi rhaglenni sbarduno a phrosiectau cysylltiedig eraill; a gwariant i ddatblygu, cynnal a gwella gwaith arolygu a rheoleiddio, ac ar gyfer gweithgareddau monitro, adrodd a chyfathrebu; gwariant ar ddarparu cyngor arbenigol, gwella gwasanaethau a chefnogi rhaglenni sbarduno a phrosiectau cysylltiedig eraill; ac ar gostau staff a gwariant gweinyddol cyffredinol ar gyfer yr Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Arolygiaeth Gofal Iechyd; ad-dalu costau; costau lesio ceir; costau rhedeg, cynnal a lesio adeiladau; costau technoleg gwybodaeth a thelathrebu; a chostau staff, costau rhaglenni, costau cyfalaf a dibrisiant a gwariant cyffredinol i gefnogi Estyn ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod. | 57,831 |

| **Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus)** | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu**<br><br>I'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar wariant sy'n gysylltiedig â gweinyddu, a chostau rhedeg gan gynnwys: costau cyflogau staff; talu yswiriant gwladol; cyfraniadau pensiwn; ad-dalu treuliau; iawndal; benthyciadau i staff; llogi a lesio ceir; costau rhedeg yr ystâd sifil; lesio, rhentu a chaffael adeiladau; gwariant gweinyddol cyffredinol; gwariant ar TG a thelathrebu; gwariant ar ddatblygu busnes; gwariant refeniw a chyfalaf gweinyddol arall; cymorth ar gyfer yr Uned Penodiadau Cyhoeddus; galluogi a hyrwyddo llywodraeth agored; cefnogi gwaith ymchwil, gan gynnwys ymchwil a gwerthuso ystadegol; hyrwyddo lles economaidd, corfforol, cymdeithasol neu amgylcheddol; cynllunio, mynychu a marchnata digwyddiadau cyfathrebu mewnol corfforaethol a chyfathrebu polisi'r Llywodraeth a sut i'w weithredu ar lefel allanol, hirdymor; hyrwyddo cyfle cyfartal, amrywiaeth a hawliau dynol; cyllid ar gyfer cysylltiadau rhynglywodraethol, gan gynnwys y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, ac ar gyfer datblygu cyfansoddiadol, gan gynnwys Confensiwn Cymru Gyfan; cynnal digwyddiadau o bwys cenedlaethol; cynllunio gofodol; costau ymchwiliadau cyhoeddus; grantiau i gyrff y sector cyhoeddus er mwyn sicrhau enillion effeithlonrwydd; ariannu Gwerth Cymru a Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru; taliadau i gefnogi datblygu tramor a chysylltiadau tramor; grantiau a chymorth ariannol i sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus; darparu arian cyfatebol ar ffurf grantiau i'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ac unrhyw wariant cysylltiedig a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod. | 376,497 |

## Atodlen 2 – Gweinidogion Cymru ac adnoddau cronnus

### Rhan 1: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y ceir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae adnoddau cronnus yn cynnwys gwerthiant tystysgrifau rhagdalu presgripsiynau; incwm o dan y Cynllun Rheoleiddio Prisiau Fferyllol; rhenti eiddo'r gwasanaeth iechyd gwladol; taliadau a gesglir gan ddeintyddion ac offthalmolegwyr; taliadau oddi wrth gleifion, ymarferwyr a chontractwyr sy'n rhoi cyffuriau ar bresgripsiwn; tâl am lety, nwyddau a gwasanaethau i gleifion preifat, cleifion y GIG, awdurdodau lleol ac eraill; llog a difidend ar Gyfalaf Difidend Cyhoeddus i Ymddiriedolaethau'r GIG; incwm oddi wrth Lywodraeth yr Alban, Gogledd Iwerddon a'r Adran Iechyd; taliadau a godir ar gleifion preifat; cynlluniau creu incwm; Incwm Yswiriant Gwladol gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi; incwm anweithredol drwy werthu tir, adeiladau, cerbydau, offer ac eiddo ac adennill TAW. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys gwariant ar wasanaethau iechyd teulu, ysbytai a gwasanaethau iechyd cymunedol; prynu asedau sefydlog (Ymddiriedolaethau, Byrddau Iechyd Lleol a darparwyr gofal iechyd cysylltiedig); cefnogaeth i ddarparu a gweinyddu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **1,189,622** |

### Rhan 2: Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae adnoddau cronnus yn cynnwys ad-dalu ac adennill grantiau; ad-dalu Benthyciadau Ceir gan staff y Tribiwnlys Prisio, adennill TAW ac adennill taliadau grant. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys gwariant cefnogol ar gymunedau mwy diogel ac adfywio; costau rhedeg a gwariant gweinyddu cyffredinol mewn perthynas â'r Tribiwnlys Prisio a thalu grantiau i awdurdodau lleol a chyrff y sector gwirfoddol. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **10** |

### Rhan 3: Yr Economi a Thrafnidiaeth

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Arian grant oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd; ad-dalu grantiau; derbyniadau seilwaith mewn perthynas ag eiddo, gan gynnwys incwm rhenti; taliadau am wasanaethau busnes; cyfraniadau i brosiectau gan sefydliadau eraill y sector cyhoeddus a'r sector preifat; incwm buddsoddi; derbyniadau mewn perthynas â Thrafnidiaeth, gan gynnwys astudiaethau, dirwyon, cosbau, adennill arian ac unrhyw ffioedd a chostau eraill sy'n gysylltiedig â'r Rhaglenni Trafnidiaeth. | Pob prosiect sy'n cael arian Ewropeaidd a chefnogi'r holl wariant fel y'i nodir yn y cwmpas gwariant. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **315,278** |

**Rhan 4: Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae adnoddau cronnus yn cynnwys incwm ôl-16 o Brosiectau Ewropeaidd, Ymchwil a Gwerthuso a Datblygu Sgiliau Busnes; Breindaliadau Cwricwlwm a Chymwysterau; Adennill Benthyciadau Myfyrwyr; Gwerthu Cyhoeddiadau ac adennill TAW. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys cefnogi Prosiectau Ewropeaidd, CQFW, Datblygu Rhaglenni, Datblygu Sgiliau Busnes, Gwariant Cyfredol ar Ymchwil a Gwerthuso; cefnogi Gwariant Cyfredol ar y Cwricwlwm a Chymwysterau a chefnogi pob gwariant sydd wedi'i nodi yn y cwmpas gwariant. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **46,682** |

**Rhan 5: Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai**

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae adnoddau cronnus yn cynnwys incwm o Grantiau Tai Cymdeithasol a ad-delir; adennill grantiau oddi wrth awdurdodau lleol, sefydliadau'r sector gwirfoddol a sefydliadau eraill y sector preifat a chyhoeddus; derbyniadau'r Panel Asesu Rhenti, derbyniadau ETS yr UE ac adennill TAW. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys gwariant cyfredol Cyngor Cefn Gwlad Cymru; gwariant a thaliadau Grant Tai Cymdeithasol. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **111,948** |

**Rhan 6: Materion Gwledig**

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae adnoddau cronnus yn cynnwys incwm o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd; incwm ar ffurf derbyniadau drwy fodiwleiddio cymorthdaliadau i ffermwyr; incwm o'r Undeb Ewropeaidd trwy'r Asiantaeth Taliadau Gwledig i ffermwyr; incwm o Gronfa Pysgodfeydd Ewrop; incwm o brosiectau ffermydd gwynt; incwm o Fferm Pwllperian – refeniw; adennill grantiau neu setliadau mewn perthynas â thaliadau grant; adennill TAW; incwm o gasglu carcasau anifeiliaid a leddir er mwyn rheoli clefydau; ac arian Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Gwledig. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys cymorth amaeth-amgylcheddol i ffermwyr, cefnogi cymunedau gwledig, cymorth i sector pysgodfeydd Cymru a'i ddatblygu a iawndal am gael gwared â da byw sy'n dioddef o glefydau. Cymorth i bysgodfeydd a gwaith rheoli a gorfodi ym maes y môr. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **293,534** |

**Rhan 7: Treftadaeth**

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae adnoddau cronnus yn cynnwys incwm Cadw o godi tâl mynediad ar safleoedd Cadw, gwerthu cofroddion, cyhoeddiadau, ffioedd ar gyfer gwasanaethau cynghori arbenigol a thâl aelodaeth Etifeddiaeth y Cymry; incwm arall gan gynnwys incwm o ddigwyddiadau, gwaith ffilmio, ffotograffiaeth ar safleoedd a chymynroddion; incwm sy'n deillio o weithgareddau twristiaeth; incwm y Comisiwn Brenhinol drwy werthu cyhoeddiadau, a grantiau; arian drwy gynlluniau cyllid Ewropeaidd a chynlluniau cyllid eraill; adennill grantiau neu setliadau mewn perthynas â thaliadau grant; grantiau ad-hoc o ffynonellau eraill ac adennill TAW. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys gwariant cyfredol Cadw ar archaeoleg, rhestru henebion, grantiau ar gyfer adeiladau hanesyddol a henebion, a gofalu am yr henebion sydd o dan ei ofal a'u cyflwyno; pob prosiect a ariennir gan Ewrop; cymorth i dwristiaeth yng Nghymru; a gwariant cyfredol/costau rhedeg y Comisiwn Brenhinol. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **4,777** |

**Rhan 8: Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad**

| ***Colofn 1*** *Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2*** *Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae adnoddau cronnus yn cynnwys incwm o ffioedd a thaliadau a godwyd am gynnal arolygiadau; cyrsiau hyfforddi; ac adennill TAW. | Mae gwasanaethau a dibenion yn cynnwys costau rhedeg, costau gweinyddu cyffredinol a gwariant refeniw'r arolygiaethau a gwariant refeniw cyffredinol Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **442** |

**Rhan 9: Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu**

| ***Colofn 1*** *Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2*** *Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae adnoddau cronnus yn cynnwys incwm o: secondio staff a ffioedd staff; ad-dalu benthyciadau i staff; ad-dalu didyniadau statudol o dan PAYE; adennill TAW: gwerthu tir ac adeiladau; is-osod eiddo; gwerthu asedau gweinyddol; gwasanaethau a ddarperir i gyrff yn y sector cyhoeddus; incwm o wasanaethau TGCh a ddarperir; ffioedd aelodaeth ar gyfer Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru; ad-daliadau gan ddarparwyr hyfforddiant; ac adfer grantiau. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys ariannu costau rhedeg a gwariant gweinyddol cyffredinol a chefnogi gwariant cyfalaf ar sylfaen ystadau ac asedau Llywodraeth y Cynulliad; costau rhedeg a gwariant refeniw cyffredinol Rheoli yng Ngwasanaeth Cyhoeddus Cymru a chefnogi gwaith cyfathrebu corfforaethol. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **8,500** |

## Atodlen 3 – Gwariant Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol (heb gynnwys adnoddau cronnus)

### Rhan 1 – Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Symiau £000* |
|---|---|
| Adnoddau heblaw adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gostau refeniw a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad'); hyrwyddo'r Cynulliad gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau i'r Comisiynydd Safonau; unrhyw daliadau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Cynulliad neu swyddogaethau Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. | **46,181** |

### Rhan 2 - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
|---|---|
| Adnoddau heblaw adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ('yr Ombwdsmon') ar gostau refeniw a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu swyddfa'r Ombwdsmon; taliadau i gymdeithas ombwdsmyn Prydain ac Iwerddon; taliadau i gymdeithas ombwdsmyn Ewrop; taliadau i'r Sefydliad Ombwdsmyn Rhyngwladol ac eitemau cysylltiedig heb fod yn arian parod. | **3,142** |

### Rhan 3 – Archwilydd Cyffredinol Cymru

| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
|---|---|
| Adnoddau heblaw adnoddau cronnus i'w defnyddio gan yr Archwilydd Cyffredinol i weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru ac i gyflawni swyddogaethau statudol yr Archwilydd Cyffredinol ac archwilwyr sydd wedi'u penodi gan lywodraeth leol. | **4,900** |

## Atodlen 4 – Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol ac adnoddau cronnus

### Rhan 1 – Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Adnoddau cronnus a gafwyd drwy werthu asedau sefydlog ac incwm cyfalaf i'w cadw yn unol ag adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a'u defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer prynu neu gaffael asedau sefydlog; incwm rhenti; rhoddion; incwm o werthiant masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd ac eraill | I'w defnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog a'u defnyddio i dalu am gostau gweinyddol y Cynulliad. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **160** |

### Rhan 2 – Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Incwm o werthiant masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd ac eraill; derbyniadau TAW. | I'w defnyddio ar wasanaethau cysylltiedig a gweinyddu gwasanaeth yr Ombwdsmon |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **8** |

**Rhan 3 – Archwilydd Cyffredinol Cymru**

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Adnoddau cronnus o ffioedd a thaliadau a godir am wasanaethau archwilio a gwasanaethau cysylltiedig (heb gynnwys incwm o dan ran 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 a Rhan 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004); adennill costau eraill sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol; amryfal incwm o gyhoeddiadau, cynadleddau, darparu gwasanaethau gweinyddol etc; adennill costau staff wedi'u secondio; ad-dalu benthyciadau a roddwyd i staff; adennill taliadau lesio ceir; a llog a dderbynnir ar ffioedd y fantolen waith. | I'w defnyddio gan yr Archwilydd Cyffredinol ar wasanaethau cysylltiedig a gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **9,300** |

# Atodlen 5: Cysoni Adnoddau ag Arian Parod – 2008-09 (£000)

*Tabl 1: Y Cysoniad Adnoddau ac Arian ar gyfer 2008-09 yng Nghynnig Cyllideb Ionawr 2008 (£000)*

| | Gweinidogion Cymru | Comisiwn y Cynulliad | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
|---|---|---|---|---|
| **Y Gofyniad Adnoddau Net** | **12,702,890** | **44,631** | **3,032** | **4,900** |
| **Y Gofyniad Cyfalaf Net** | **415,909** | **1,550** | **110** | **-** |
| Addasiadau: | | | | |
| Taliadau Cyfalaf | -694,205 | -4,775 | -136 | -200 |
| Amhariadau | -36,059 | - | - | - |
| Symudiadau yn y darpariaethau | -40,313 | -564 | - | - |
| Elw/Colled wrth werthu asedau | - | - | - | - |
| Symudiadau mewn stociau | - | - | - | - |
| Symudiadau yn y dyledwyr/credydwyr | -10,938 | -85 | 42 | 200 |
| Defnyddio darpariaethau | - | - | - | - |
| Arall | - | - | - | - |
| **Y Gofyniad Arian Parod Net i ddod o Gronfa Gyfunol Cymru** | **12,337,284** | **40,757** | **3,048** | **4,900** |

*Tabl 2: Newidiadau i'r Cysoniad Adnoddau ac Arian yng Nghynnig Cyllideb Ionawr 2008 (£000)*

| | Gweinidogion Cymru | Comisiwn y Cynulliad | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
|---|---|---|---|---|
| **Y Gofyniad Adnoddau Net** | **-15,354** | **-** | **-** | **-** |
| **Y Gofyniad Cyfalaf Net** | **89,143** | **-** | **-** | **-** |
| Addasiadau: | | | | |
| Taliadau Cyfalaf | 36,569 | - | - | - |
| Amhariadau | -101,011 | - | - | - |
| Symudiadau yn y darpariaethau | -63,852 | - | - | - |
| Elw/Colled wrth werthu asedau | - | - | - | - |
| Symudiadau mewn stociau | - | - | - | - |
| Symudiadau yn y | -36,219 | - | - | - |
| dyledwyr/credydwyr | - | - | - | - |
| Defnyddio darpariaethau | - | - | - | - |
| Arall | | | | |
| **Y Gofyniad Arian Parod Net i ddod o Gronfa Gyfunol Cymru** | **-90,724** | **-** | **-** | **-** |

*Tabl 3: Y Cysoniad Adnoddau ac Arian yn y Cynnig Cyllideb Atodol hwn (£000)*

| | Gweinidogion Cymru | Comisiwn y Cynulliad | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
|---|---|---|---|---|
| **Y Gofyniad Adnoddau Net** | **12,687,536** | **44,631** | **3,032** | **4,900** |
| **Y Gofyniad Cyfalaf Net** | **505,052** | **1,550** | **110** | **-** |
| Addasiadau: | | | | |
| Taliadau Cyfalaf | -657,636 | -4,775 | -136 | -200 |
| Amhariadau | -137,070 | - | - | - |
| Symudiadau yn y darpariaethau | -104,165 | -564 | - | - |
| Elw/Colled wrth werthu asedau | - | - | - | - |
| Symudiadau mewn stociau | - | - | - | - |
| Symudiadau yn y dyledwyr/credydwyr | -47,157 | -85 | 42 | 200 |
| Defnyddio darpariaethau | - | - | - | - |
| Arall | - | - | - | - |
| **Y Gofyniad Arian Parod Net i ddod o Gronfa Gyfunol Cymru** | **12,246,560** | **40,757** | **3,048** | **4,900** |

**Nodiadau:**

1. Mae cynnwys a fformat y tabl hwn yn cydymffurfio ag Adrannau 125(1)(c) ac 126(2)(c) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("y Ddeddf") sy'n datgan y caiff datganiad ei wneud, at ddiben awdurdodi'r cynnig, i awdurdodi 'y swm y ceir ei dalu o Gronfa Gyfunol Cymru yn y flwyddyn ariannol i'r personau perthnasol neu ar gyfer ei ddefnyddio, yn unol â deddfiad perthnasol, at y dibenion a bennir'. Bydd y taliadau a wneir o Gronfa Gyfunol Cymru yn cael eu talu mewn arian parod. Mae'r tabl hwn felly yn dangos y gofyniad perthnasol am arian parod i gefnogi'r adnoddau y gofynnir amdanynt i gefnogi Atodlenni 1 i 4 sy'n datgan y dibenion perthnasol y ceir defnyddio'r adnoddau ar eu cyfer.

2. Mae cynnwys a fformat y tabl hwn yn cydymffurfio hefyd â Rheol Sefydlog 27.19 (v) sy'n datgan bod yn rhaid i gynnig y gyllideb gynnwys cysoniad rhwng yr adnoddau a awdurdodir o dan adran 125(1)(a) a (b) o’r Ddeddf a'r symiau yr awdurdodir eu talu o Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 125(c) o’r Ddeddf.

3. Cyflwynir y ddau dabl hyn o dan A126 o’r Ddeddf a RhS27.22 sy’n dangos amrywiadau ar yr adnoddau a ddyrennir yn y Cynnig Blynyddol ynghylch y Gyllideb a’r symiau i’w talu o Gronfa Gyfunol Cymru.

# Atodlen 6: Cysoni adnoddau y gofynnir amdanynt yn y cynnig ynghylch y gyllideb â'r adnoddau a ddarperir gan y Trysorlys ar gyfer Bloc Cymru ar gyfer 2008-09

***Tabl 1: Y Cysoniad rhwng yr adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig Cyllideb Ionawr 2008 a'r adnoddau a ryddhawyd gan y Trysorlys ar gyfer Cymru (£000)***

| | 2008-09 (£000) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **DEL Refeniw** | **DEL Cyfalaf** | **AME Refeniw** | **AME Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| *Adnoddau y gofynnir amdanynt yn y cynnig ynghylch y gyllideb:* | | | | | |
| - Gweinidogion Cymru | 12,702,890 | 415,909 | - | - | 13,118,799 |
| - Comisiwn y Cynulliad | 44,631 | 1,550 | - | - | 46,181 |
| - Ombwdsmon | 3,032 | 110 | - | - | 3,142 |
| - Archwilydd Cyffredinol | 4,900 | - | - | - | 4,900 |
| **Cyfanswm yr adnoddau y gofynnir amdanynt yn y cynnig ynghylch y gyllideb derfynol** | **12,755,453** | **417,569** | **-** | **-** | **13,173,022** |
| *Addasiadau:* | | | | | |
| (i) Defnydd adnoddau gan Gyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad a BIL1 | 115,923 | -400 | - | - | 115,523 |
| (ii) Grantiau | -1,207,042 | 1,207,042 | - | - | - |
| (iii) Benthyca â chymorth | - | 163,396 | - | - | 163,396 |
| (iv) Arall | 1,175,761 | -208,600 | 409,692 | 208,600 | 1,585,453 |
| **Cyfanswm yr addasiadau yn y cynnig yngylch y gyllideb derfynol** | **84,642** | **1,161,438** | **409,692** | **208,600** | **1,864,372** |
| - Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | 2,484 | - | - | - | 2,484 |
| - Swyddfa Cymru | | | | | |
| - Cronfa wrth gefn heb ei | 7,683 | 766 | - | - | 8,449 |
| chlustnodi | 130,343 | - | - | - | 130,343 |
| **Cyfanswm y gwariant a reolir (Bloc)** | **12,980,605** | **1,579,773** | **409,692** | **208,600** | **15,178,670** |

***Tabl 2 : Newidiadau i'r Cysoniad rhwng yr adnoddau y gofynnir amdanynt yng Nghynnig Cyllideb Ionawr 2008 a'r adnoddau a ryddhawyd gan yTrysorlys ar gyfer Cymru (£000)***

| | 2008-09 (£000) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **DEL Refeniw** | **DEL Cyfalaf** | **AME Refeniw** | **AME Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| *Adnoddau y gofynnir amdanynt yn y cynnig ynghylch y gyllideb:* | | | | | |
| - Gweinidogion Cymru | -459,567 | -88,297 | 444,213 | 177,440 | 73,789 |
| - Comisiwn y Cynulliad | - | - | - | - | - |
| - Ombwdsmon | - | - | - | - | - |
| - Archwilydd Cyffredinol | - | - | - | - | - |
| **Cyfanswm yr adnoddau y gofynnir amdanynt yn y cynnig ynghylch y gyllideb derfynol** | **-459,567** | **-88,297** | **444,213** | **177,440** | **73,789** |
| *Addasiadau:* | | | | | |
| (v) Defnydd adnoddau gan Gyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad a BILl | 43,859 | 400 | 75,572 | - | 119,831 |
| (vi) Grantiau | 32,163 | -32,163 | - | - | - |
| (vii) Benthyca â chymorth | - | - | - | - | - |
| (viii) Arall | 513,575 | 208,600 | -409,692 | -208,600 | 103,883 |
| **Cyfanswm yr addasiadau yn y cynnig yngylch y gyllideb derfynol** | **589,597** | **176,837** | **-334,120** | **-208,600** | **223,714** |
| - Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | 24 | - | - | - | 24 |
| - Swyddfa Cymru | - | - | - | - | - |
| - Cronfa wrth gefn heb ei chlustnodi | -129,225 | 580 | - | - | -128,645 |
| **Newidiadau i Gyfanswm y Gwariant a Reolir (Cymru)** | **829** | **89,120** | **110,093** | **-31,160** | **168,882** |

*Tabl 3: Cysoniad yr Adnoddau y Gofynnir Amdanynt yn y Cynnig Cyllideb Atodol hwn (£000)*

| | 2008-09 (£000) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | DEL Refeniw | DEL Cyfalaf | AME Refeniw | AME Cyfalaf | Cyfanswm |
| *Adnoddau y gofynnir amdanynt yn y cynnig ynghylch y gyllideb:* | | | | | |
| - Gweinidogion Cymru | 12,243,323 | 327,612 | 444,213 | 177,440 | 13,192,588 |
| - Comisiwn y Cynulliad | 44,631 | 1,550 | - | - | 46,181 |
| - Ombwdsmon | 3,032 | 110 | - | - | 3,142 |
| - Archwilydd Cyffredinol | 4,900 | - | - | - | 4,900 |
| **Cyfanswm yr adnoddau y gofynnir amdanynt yn y cynnig ynghylch y gyllideb derfynol** | **12,295,886** | **329,272** | **444,213** | **177,440** | **13,246,811** |
| *Addasiadau:* | | | | | |
| (ix) Defnydd adnoddau gan Gyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad a BILl | 159,782 | - | 75,572 | - | 235,354 |
| (x) Grantiau | -1,174,879 | 1,174,879 | - | - | - |
| (xi) Benthyca â chymorth | - | 163,396 | - | - | 163,396 |
| (xii) Arall | 1,689,336 | - | - | - | 1,689,336 |
| **Cyfanswm yr addasiadau yn y cynnig yngylch y gyllideb derfynol** | **674,239** | **1,338,275** | **75,572** | **-** | **2,088,086** |
| - Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | 2,508 | - | - | - | 2,508 |
| - Swyddfa Cymru | 7,683 | 766 | - | - | 8,449 |
| - Cronfa wrth gefn heb ei chlustnodi | 1,118 | 580 | - | - | 1,698 |
| **Cyfanswm y gwariant a reolir (Bloc)** | **12,981,434** | **1,668,893** | **519,785** | **177,440** | **15,347,552** |

**Nodiadau:**

1. Mae cyfanswm gofyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru am adnoddau yn gyfwerth â chyfanswm y dyraniadau a gynhwyswyd yn y Cwmpasau yn Atodlen 1.

2. Dywed Rheol Sefydlog 27.19 (ii) y dylai'r cynnig blynyddol ynghylch y gyllideb gynnwys yr adnoddau y mae'r Trysorlys yn cytuno arnynt ar gyfer cyllideb bloc Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn ymdrin â hi. Mae Atodlen 6 yn bodloni'r gofyniad hwn.

3. Dywed Rheol Sefydlog 27.19 (iii) fod yn rhaid i'r cynnig blynyddol ynghylch y gyllideb gynnwys cysoniad rhwng yr adnoddau a ddyrannwyd ar gyfer cyllideb bloc Cymru gan y Trysorlys â'r adnoddau yr awdurdodir eu defnyddio yn y cynnig ynghylch y gyllideb. Mae Atodlen 6 yn bodloni'r gofyniad hwn.

4. Mae'r atodlenni uchod yn dangos amrywiadau yn yr adnoddau a awdurdodir ar gyfer y flwyddyn ariannol o dan A126 o'r Ddeddf a RhS27.22.

5. Taliadau a Godir yn Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru:

| **Eitem** | **2008-09 £000** |
|---|---|
| Taliadau i'r Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol | 1,783 |
| Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd | 219 |
| Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig yr Ombwdsmon | 176 |
| Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig yr Archwilydd Cyffredinol | 220 |
| Incwm Ardrethi Annomestig Cenedlaethol | -888,254 |
| Ardrethi Annomestig Cenedlaethaol sy'n Daladwy | 888,254 |
| Costau Etholiad | 110 |
| **Cyfanswm** | **2,508** |

## Atodlen 7: Cysoni'r llif arian parod i Gronfa Gyfunol Cymru â'r arian parod y gofynnir amdano yn y cynnig ynghylch y gyllideb (£000)

| | Darpariaeth Gwreiddiol 2008-09 | Newidiadau | Darpariaeth Diwygiedig 2008-09 |
|---|---|---|---|
| Amcangyfrif o'r symiau net i'w talu i Gronfa Gyfunol Cymru; | | | |
| Terfyn Gwariant Adrannol | 14,560,378 | 89,949 | 14,650,327 |
| *Llai* Derbyniadau o'r Gronfa Yswiriant Gwladol | -890,566 | -95,511 | -986,077 |
| *Plws* Gwariant a Reolir yn Flynyddol | 618,292 | 78,933 | 697,225 |
| Is-Gyfanswm | 14,288,104 | 73,371 | 14,361,475 |
| *Llai* Swyddfa Cymru | -8,449 | - | -8,449 |
| *Plws* taliadau o adrannau eraill y Llywodraeth | 890,566 | 95,511 | 986,077 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **15,170,221** | **168,882** | **15,339,103** |
| Cysoni â'r Gofynion am Adnoddau: | | | |
| Addasiadau Eraill: | | | |
| - Taliadau Cyfalaf a Godir ar Gyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad | -115,523 | -119,831 | -235,354 |
| - Benthyca â Chymorth | -163,396 | - | -163,396 |
| - Arall | -1,585,453 | -103,883 | -1,689,336 |
| - Taliadau Uniongyrchol | -2,484 | -24 | -2,508 |
| - Cronfeydd wrth gefn heb eu clustnodi | -130,343 | 128,645 | -1,698 |
| **Y Gofyniad am Adnoddau** | **13,173,022** | **73,789** | **13,246,811** |
| Addasiadau i'r Croniadau | -787,033 | -164,513 | -951,546 |
| **Symiau sydd ar gael i'w dyrannu yn y cynnig** | **12,385,989** | **-90,724** | **12,295,265** |
| Dosbarthwyd fel a ganlyn: | | | |
| - Llywodraeth Cynulliad Cymru | 12,337,284 | -90,724 | 12,246,560 |
| - Comisiwn y Cynulliad | 40,757 | - | 40,757 |
| - Ombwdsmon | 3,048 | - | 3,048 |
| - Archwilydd Cyffredinol | 4,900 | - | 4,900 |
| **Arian a Ryddheir o Gronfa Gyfunol Cymru yn y Cynnig** | 12,385,989 | -90,724 | 12,295,265 |
| *Plws:* Taliadau Uniongyrchol i Gronfa Gyfunol Cymru | 2,484 | 24 | 2,508 |
| Cronfeydd heb eu clustnodi | 112,105 | -98,467 | 13,638 |
| **Amcangyfrif o Gyfanswm y Taliadau** | **12,500,578** | **-189,167** | **12,311,411** |

Nodiadau:

1. Mae Adran 125(3) o'r Ddeddf yn datgan bod yn rhaid wrth ddatganiad ysgrifenedig gan y Gweinidogion i gyd-fynd â'r cynnig blynyddol ynghylch y gyllideb sy'n dangos:

    i. cyfanswm y taliadau y maent yn amcangyfrif y byddant yn cael eu gwneud ar gyfer y flwyddyn ariannol o dan Adran 118 (1);
    ii. cyfanswm y taliadau y maent yn amcangyfrif y byddant yn cael eu talu i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn ariannol gan Weinidogion y Goron ac adrannau'r llywodraeth; a
    iii. cyfanswm y taliadau y maent yn amcangyfrif y byddant yn cael eu talu i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn ariannol ar wahân i daliadau a wneir gan un o Weinidogion y Goron neu un o adrannau'r llywodraeth.

***Mawrth 2009***